Pecyn Dogfennau

# Cofnodion

## Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Llun, 28 Chwefror 2022 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Ferris (Cadeirydd), P Hourahine, J Clarke, T Watkins, K Thomas, M Evans and C Townsend |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr M Whitcutt |

1 **Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr M Whitcutt.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 18 Ionawr 2022 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

Materion yn Codi:

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Evans at grybwyll cynlluniau deiseb o 13 Rhagfyr 2021 a gofynnodd a oedd gan y swyddogion diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyflwyno deisebau. Esboniodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai ond newydd ei dderbyn yr oedd y canllaw drafft, a chadarnhaodd y caiff y Pwyllgor adroddiad manylach am y dewisiadau yng nghyfarfod mis Mawrth.

4 **Hyfforddiant Cynefino Aelodau (Diweddariad am y Cyflwyniad)**

Leanne Rowlands – Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor a rhannu'r cynlluniau am Hyfforddiant Cynefino Aelodau iddynt eu hadolygu a gwneud sylwadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau beth oedd y gofynion deddfwriaethol i Aelodau a gwaith CLILC ar fframwaith i Aelodau yng Nghymru. Hysbyswyd y Pwyllgor y defnyddir fframweithiau cymhwysedd i Aelodau i'w helpu i ddatblygu.

<u>Pwyntiau allweddol</u>

Ymdriniodd y Swyddog Arweiniol ag egwyddorion a dulliau cyflwyno'r hyfforddiant, nodi y bydd yr hyfforddiant yn canoli ar yr aelodau, a'u bod yn edrych ar ffyrdd i wneud yr hyfforddiant mor ddiddorol ag sydd modd. Pecyn Dogfennau Cyhoeddus: hysbyswyd yr Aelodau y cynhelir yr hyfforddiant ar amrywiol lwyfannau, megis hyfforddiant wyneb yn

wyneb, gweithdai a modiwlau e-ddysgu, er mwyn sicrhau y gellir ei gyflwyno'n hygyrch. Bydd hyfforddi a mentora hefyd yn digwydd.

Rhoddwyd y dyddiadau allweddol i'r Pwyllgor, a dywedwyd y bydd 6 diwrnod gwaith clir o'r cyfrif hyd at y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 17 Mai; mae hyn yn amserlen dynn iawn, yn enwedig gydag Aelodau newydd yn dod i mewn.

Bydd cynnal hyfforddiant craidd a chynefino gyda'r cyfarpar yn gryn dasg er mwyn i'r Aelodau newydd fod yn barod am y CCB. Hysbyswyd yr Aelodau mai cyfarfod hybrid fydd y CCB a bod angen felly i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd ddarparu hyfforddiant yn ôl y galw fel bod Aelodau'n teimlo'n gyfforddus i gymryd rhan yn y cyfarfodydd.

Ymdriniodd y Swyddog Arweiniol ag amcanion y cwricwlwm, a mynd trwy'r hyfforddiant i'r Aelodau fesul wythnos. I grynhoi, mae cyfanswm o 33 modiwl, gyda 16 ohonynt yn orfodol, a 6 yn orfodol i Aelodau pwyllgorau penodol. I weddill yr Aelodau, bydd cyfanswm o 10 modiwl gorfodol, wedi eu gwasgaru dros gyfnod o amser, ac yn llai aml wedi wythnos gyntaf yr hyfforddiant cynefino.

Croesawodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd unrhyw gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor.

_Codwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:_

• Holodd y Cynghorydd T. Watkins a allai Aelodau'r Pwyllgor gael copi o'r cyflwyniad. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y caiff ei ddosbarthu ac y bydd rhan o'r gefnogaeth i ddarpar-ymgeiswyr a gwybodaeth am hyfforddiant ar gael. Esboniwyd eu bod yn gosod disgwyliadau am yr wythnos gyntaf oherwydd y bydd llawer o waith i'w wneud, a'i bod yn bwysig felly egluro pa mor brysur y bydd yr wythnos honno. Trafodwyd y ffaith y gallai cynghorwyr a darpar-ymgeiswyr fod wedi trefnu gwyliau, ac y byddai'n syniad felly eu rhybuddio ymlaen llaw.

• Diolchodd y Cynghorydd Hourahine y swyddog am y cyflwyniad a chrybwyll nad oedd 3-4 o Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y gorffennol wedi cymryd rhan yn y modiwlau gorfodol; holodd a fyddai sancsiynau'n cael eu gosod ar y sawl na fyddant yn cymryd rhan.

Atebodd y Pennaeth Gwasanaeth trwy gadarnhau nad oes gan y cyngor sancsiynau gorfodi, ond y dywed y rheolau os nad yw Aelodau yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, na allant wedyn eistedd ar bwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sancsiynau y gellid eu gosod pe na bai aelodau yn dilyn yr hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad. Pwysleisiwyd fod gofyn i aelodau gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad pan fyddant yn llofnodi eu Datganiad/Derbyn Swydd, ond yn anffodus, nid oes sancsiynau gorfodi pe na baent yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol.

Dywedodd Llywodraeth Cymru nad ydynt yn bwriadu newid y rheolau cyn etholiadau mis Mai, yn ôl argymhelliad adolygiad Richard Penn, i gynnwys ymrwymiad i'r hyfforddiant fel rhan o'r Datganiad Derbyn swydd. Fodd bynnag, gyda'r Cyngor a'r Ombwdsmon, mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn orfodol ond nid oes dull o orfodi hyn. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cyngor wedi trefnu nifer o sesiynau hyfforddiant gloywi i'r aelodau hynny, ond pe na bai rhai yn gallu bod yn bresennol, fod y cyngor yn anfon gwybodaeth yr hyfforddiant atynt yn electronig. Un ddarpariaeth newydd o ran gorfodaeth yn y ddeddfwriaeth newydd yw bod cyfrifoldeb personol ar Arweinyddion grwpiau gwleidyddol i gynnal safonau moesegol yn eu grwpiau. Felly, mae disgwyl iddynt sicrhau bod eu haelodau gwleidyddol yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol.

• Gwnaeth y Cynghorydd M. Evans sylw ei bod yn dda gweld fod y tîm yn cydnabod y gall llai fod yn well weithiau, a soniodd y gall toreth o wybodaeth fod yn llethol i'r Aelodau. Aeth yr Aelod ymlaen i drin y cynnig am gyfarfod hybrid ym mis Mai gan y credai y gall y cyfyngiadau

fod wedi eu codi erbyn hynny, ac y byddai'r cyngor eisiau ymwneud wyneb yn wyneb yn y ganolfan ddinesig. Pwysleisiodd nad oedd y penderfyniad i gynnal cyfarfod ar-lein ym mis Mai yn un y byddai'n ei gefnogi fel aelod.

Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gamddealltwriaeth; cyfarfod hybrid fyddai, gyda'r aelodau yn bresennol yn y siambr gan fod ganddynt hawl i hynny, gyda'r dewis o gael cynghorwyr yn galw i mewn o bell trwy dechnoleg.

Ni fyddai rheidrwydd ar yr Aelodau i alw i mewn o bell, yn amodol ar gyfyngiadau. Yr oedd y cyfarfod "hybrid" yn un o ofynion y ddeddfwriaeth newydd, a'r bwriad oedd rhoi dewis personol i aelodau fynychu cyfarfod yn bersonol neu o bell. A rhagdybio na fyddai unrhyw gyfyngiadau Covid ym mis Mai, yna byddai gan bob aelod oedd am ddod i Siambr y Cyngor yr hawl i wneud hynny. Ni chymerwyd unrhyw "benderfyniad" i barhau â chyfarfodydd o bell ar ôl mis Mai.

- Holodd y Cynghorydd M. Evans hefyd a allai'r Aelodau gael sicrwydd y byddai mewngofnodi i'r cyrsiau e-ddysgu yn syml oherwydd bod y rhai a drefnwyd trwy ddull mewngofnodi y GIG yn anodd i Aelodau gael mynediad atynt.
Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd eu bod yn edrych i mewn i'r problemau ynghylch hynny, a'u bod yn trefnu rhywbeth.

- Cefnogodd y Cynghorydd Townsend farn y Cynghorydd M Evans am gyfarfodydd hybrid a dweud y buasai'n well ganddi hi fod yn y ganolfan ddinesig oherwydd i drigolion gwyno wrthi nad yw'r Cynghorwyr yn cwrdd yn siambrau'r cyngor.
Nodwyd y gallai hyn fod yn ffordd o osgoi gwaith, a dywedodd felly ei bod yn awyddus i ddychwelyd i fod wyneb yn wyneb gan nad yw'n hawdd cynnal trafodaethau yn rhithiol.

Aeth yr Aelod ymlaen i ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaeth am yr esboniad. Ar derfyn y drafodaeth, gofynnodd y Pennaeth Gwasanaeth i'r Aelodau drosglwyddo'r neges i'w pleidiau, oherwydd bod 6 diwrnod gwaith rhwng y cyfrif a'r CCB i gael hyfforddiant hanfodol wedi ei wneud.
Gofynnodd felly i'r Aelodau hysbysu eu cyfoedion y bydd yn ymrwymiad amser mawr ar y dyddiau hynny i ymgymryd â'r datganiadau swydd, hyfforddiant ar gyfarfodydd y cyngor a chyfarpar TG ac ati. Nodwyd y byddai o fudd i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd pe gallai'r Aelodau fod ar gael ar y dyddiau hynny. Cytunwyd: Cytunodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi'r amserlen honno ac adrodd yn ôl i'w pleidiau.

## 5 Arolygon Aelodau (Diweddariad am y Cyflwyniad)

Leanne Rowlands – Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd

Aeth Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd dros y gofynion am y misoedd i ddod megis cynnal arolygon gadael a fwriadwyd i gael adborth gan Aelodau er mwyn gwella'r gefnogaeth, sydd yn gysylltiedig â'r strategaeth gyfranogi ac i ddeall o brofiad yr Aelodau. Rhestrodd y rheolwr y tri arolwg arall fyddai'n cael eu cynnal: Arolwg Gadael Safonau Moesegol, Arolwg Amrywiaeth ac Arolwg Ymgeiswyr.

Pwyntiau allweddol

Aeth y Swyddog Arweiniol i fanylion am y mathau o gwestiynau y byddai'r Aelodau yn ymateb yn yr arolygon. Pwysleisiwyd wrth yr Aelodau y bydd yr atebion i'r arolygon yn hollol gyfrinachol ac y byddai'r canfyddiadau yn ddienw. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cyngor yn cydnabod heriau cael nifer fawr o arolygon megis gofynion yn gorgyffwrdd. Nodwyd y gallai'r Aelodau brofi blinder o gael gormod o arolygon ac y gallai ceisio cael cyfradd ymateb resymol i fod yn wrthrychol am y canfyddiadau fod yn heriol.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r cyngor adolygu'r cwestiynau ac ystyried y gorgyffwrdd fel cyfle i asio o leiaf dri arolwg yn un, er hwylustod. Mae arolwg Data Cymru yn wahanol ac

fe'i cynhelir yn y ffordd arferol felly nid oes modd i'r tîm gyfuno honno. Cafodd yr Aelodau wybodaeth am linell amser proses yr arolygon. Caiff cwestiynau'r arolwg eu gwneud ar 10 Mawrth, bydd Arolwg Ymgeiswyr Data Cymru yn fyw o 28 Mawrth, fel y bu trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Yna bydd y swyddogion yn dod ag unrhyw arolygon eraill i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 30 Mawrth.

*Codwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:*

• Cyfeiriodd y Cynghorydd K. Thomas at fater blinder gydag arolygon a holi a fyddai unrhyw gwestiynau newydd yn yr arolygon na fyddai'r Aelodau wedi dod ar eu traws ymlaen llaw.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd na fyddai meysydd newydd, ond fod rhan newydd o'r gwaith yn gysylltiedig â'r arolwg cyfranogi. Felly mae dal peth o'r data yn cysylltu i mewn â hynny, a chaiff ei fonitro.

• Nododd y Cynghorydd M. Evans hefyd fater blinder ag arolygon a mynegodd bryder na all y tîm gael ymatebion gan bobl o'r herwydd. Nodwyd fod cyrff ar wahân, ond holodd a allai'r Aelodau dderbyn un arolwg yn lle tri.
Awgrymodd yr Aelod y gallai'r Aelodau gael un dudalen lle byddai cyfle i roi sylwadau. Aeth yr Aelod ymlaen i amlygu, gyda chwestiwn yr arolwg gadael am hyfforddiant cynefino, na all unigolion gofio o 5 mlynedd yn ôl gan y bu amser maith ers hynny.
Awgrymodd yr Aelod a fyddai modd gofyn iddynt wneud sylwadau am hyfforddiant cyffredinol oherwydd bod llai yn fwy, gan gyfeirio at y pwynt hwnnw o'r drafodaeth flaenorol.

6 **Canllawiau Drafft ar Gyfansoddiadau (Gwybodaeth yn Unig)**

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Hysbysodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y Pwyllgor mai dogfen ddrafft yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn fuan cyn i'r agenda fynd allan felly ei bod wedi ei chynnwys er mwyn gwybodaeth yn unig. Felly nid oes angen penderfyniadau gan y Pwyllgor.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r tîm yn falch o gymryd unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor.

*Codwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:*

• Holodd y Cynghorydd Hourahine a oedd y Pennaeth Gwasanaeth yn golygu y byddai'n ateb eu cwestiynau yn uniongyrchol neu yn eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod hynny'n dibynnu ar y math o gwestiwn. Petaent yn sylwadau am y ddogfennaeth drafft, yna byddai'r cyngor yn hapus i'w trosglwyddo i Lywodraeth Cymru fel ymateb i'r ymgynghoriad.

• Holodd Cynghorydd T. Watkins o lle y deuai'r gyllideb ar gyfer rôl y cymorth gwleidyddol fel y trafodwyd ynghynt.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau mai'r cyngor fyddai'n talu am ymgynghorwyr y grwpiau gwleidyddol petaent am eu cyflogi.

• Aeth yr Aelod ymlaen i holi a fyddai'n rhaid i'r cyngor wedyn gael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rôl neu a fyddai'n dod allan o gyllideb y cyngor.

Atebodd y swyddog trwy ddweud y deuai allan o'r gyllideb staffio i dalu am gynorthwywyr gwleidyddol. Nid oes cyllid ychwanegol i hynny.

• Holodd y Cynghorydd Hourahine a fyddai'r cynorthwywyr gwleidyddol yn cael eu talu pro-rata i nifer y seddi.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y byddai'n rhaid i'r grŵp fod ag o leiaf 10% o'r Aelodau ar y cyngor i fod yn gymwys am ymgynghorydd. Felly o fis Mai ymlaen, gyda'r cynnydd yn aelodaeth y Cyngor i 51 o Gynghorwyr, byddai'n rhaid i bob grŵp gael o leiaf 6 o Aelodau i fod yn gymwys am gymhorthydd gwleidyddol. Os bydd digon o aelodau, yna byddai gan y 3 grŵp mwyaf ar y Cyngor hawl i benodi un cynorthwydd gwleidyddol. Ond nid yw'n gymesur a nifer y seddi, gyda mwy o Aelodau i fod yn gymwys am y cymorth.

• Cyfeiriodd y Cadeirydd at adran 56 y pwerau dirprwyedig a holodd a oedd hyn yn ddeddfwriaeth newydd i'r cyngor.

Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol mai cyngor blaenorol o fesur 2011 oedd hyn, felly nid yw'n newydd ond yn ail-ddatganiad o ganllawiau blaenorol a chyngor yn unig ydyw.

• Holodd y Cadeirydd a yw'r cyngor yn gweithredu adran 56.
Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith mai pŵer dewisol yw adran 56 ac nad yw'r cyngor erioed wedi gweithredu'r pŵer i ddirprwyo penderfyniadau i aelodau anweithredol. Mae rhai cynghorau wedi defnyddio'r pŵer hwn lle mae ganddynt ardaloedd mawr a phwyllgorau ward mewn cymunedau unigol. Maent wedi rhoi pwerau dirprwyedig i'r aelodau anweithredol ar y pwyllgorau ward hynny. Fodd bynnag, yng Nghasnewydd, yr oedd y cynllun dirprwyo am benderfyniadau gweithredol unigol i Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaeth.

• Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 35 am gyfethol y sawl nad ydynt yn aelodau i bwyllgorau craffu a gofynnodd i'r swyddogion a yw'r cyngor yn cadw at hynny.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cyngor yn gwneud hyn a'i fod wedi gwneud hynny ers 2000 gan mai dyma un o ofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol. Er enghraifft, mewn addysg, mae gan y pwyllgor craffu aelodau cyfetholedig statudol.

• Holodd y Cadeirydd a yw'r cyngor yn cyhoeddi ei flaen-raglen waith.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod y Cyngor yn gwneud hynny ar hyn o bryd a dywedodd, ym mhob cyfarfod, fod yr Aelodau yn cytuno ar eu rhaglen waith a'i bod yn cael ei chyhoeddi fel dogfen gyhoeddus a'i huwchlwytho ar y wefan.

• O ran y cyd-bwyllgorau craffu, holodd y Cadeirydd a yw'r cyngor yn dal i gynnal y rhain.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gan y cyngor nifer o gyd-bwyllgorau craffu oherwyd po fwyaf o gydweithredu, mwyaf o gyd-bwyllgorau fydd eu hangen. Er enghraifft, bydd angen cyd-graffu rhanbarthol ar gyfer y Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol, ac yr ydym hefyd yn edrych ar sefydlu cyd-bwyllgor craffu corfforaethol i'r BGC sydd yn rhanbarthol. Wrth i fwy o wasanaethau gael eu cyflwyno yn rhanbarthol trwy gydweithredu, mae gofyniad am gyd-bwyllgorau rhanbarthol a chraffu gyda'r cynghorau sy'n cymryd rhan. Bydd yr Aelodau yn gweld mwy o hyd wrth i'r cyngor symud tuag at gydweithredu a chyd-gyflwyno gwasanaethau.

• Gofynnodd y Cadeirydd a oedd hyn yn ddyhead hirdymor i'r cyngor oedd yn cael ei wireddu. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau fod y gallu i sefydlu proses graffu ar y cyd wedi bod ar gael ers mesur 2011 a grybwyllwyd yn flaenorol. Mae'r angen i'w sefydlu wedi datblygu yn fwy diweddar wrth i'r cyngor symud i gydweithio'n fwy rhanbarthol.

• Gofynnodd y Cynghorydd T. Watkins a allai Aelodau unigol wneud sylwadau am y copi drafft ac a fyddia'r sylwadau hynny yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru neu Gyngor Dinas Casnewydd.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth yr Aelod am anfon sylwadau yn ôl at y cyngor er mwyn iddynt gael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru. Atgoffwyd yr Aelodau mai ail-ddatganiad yw'r copi drafft o ddeddfwriaeth a fu yno ers blynyddoedd. Byddai'r cyngor

yn ceisio sylwadau am yr agweddau techngeol a bydd y canllawiau yn cyfeirio'n ôl at unrhyw ran o'r drafftio a darpariaethau deddfwriaethol newydd.

7 **Llawlyfr Democratiaeth (Gwybodaeth yn Unig)**

Gareth Price – Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Hysbysodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y Pwyllgor fod y Llawlyfr Democratiaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn ddogfen ddrafft ac y bydd mwy yn dilyn. Pan gyhoeddir y fersiwn derfynol, gall yr Aelodau roi sylwadau a chodi cwestiynau arni.

*Codwyd y pwyntiau canlynol yn y Pwyllgor:*

• Holodd y Cynghorydd T. Watkins a oes llinell amser ar y ddwy ddogfen a grybwyllwyd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth, o ran ymgynghori, na chafodd y cyngor gyfnod ymgynghori ffurfiol. Esboniwyd na fyddant yn cael fersiwn derfynol y dogfennau tan ar ôl yr etholiadau ym Mai. Nodwyd, er nad oedd llinell amser, gorau po gyntaf y gall y pwyllgor ymateb.

• Mynegodd y Cynghorydd T. Watkins ei bryder os bydd y dogfennau yn barod ar ôl yr etholiad, y gall mwy o bwysau fod ar yr ymgeiswyr newydd a etholir ym mis Mai.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol na fyddai pwysau ar yr ymgeiswyr eu hunain, gan ei fod yn canolbnwyntio mwy ar y broses lywodraethiant. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y gwaith sy'n cael ei wneud tan fis Mai er mwyn sicrhau bod y sylfeini'n barod fel y byddai'r cyfansoddiad presennol yn cwrdd â'r gofynion angenrheidiol. Er enghraifft, gyda'r cynlluniau deiseb, gallant fod yn eu lle erbyn mis Mai gyda pholisi sylfaenol iawn, ond efallai y dymuna'r cyngor newydd adolygu a gwella hyn. Mae'r dogfennau yn cael eu mireinio a'u hadolygu yn gyson a gallai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd newydd edrych i mewn i hyn.

• Cytunodd y Cadeirydd gyda'r sylw o dudalen 79 mai proses nid digwyddiad yw'r hyfforddiant a dywedodd y dylai'r cyngor edrych eto ar y cynlluniau deiseb.

Mewn ymateb, cadarnhodd y Pennaeth Gwasanaeth mai newydd gyrraedd yr oedd y cyngor felly pan gaiff y cynllun deiseb ei ddtablygu, y bydd hyn yn cael ei ystyried. Nid yw'r canllawiau ar eu ffurf derfynol eto o ran yr agwedd y gall fod angen ei mireinio wedi mis Mai. Fodd bynnag, hysbyswyd y Pwyllgor y bydd y swyddogion yn dod â dewisiadau gerbon i'w hystyried ym mis Mawrth.

8 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Mercher 30 Mawrth 10am – 12pm.

9 **Digwyddiad Byw**

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 28 Chwefror 2022 – YouTube

Daeth y cyfarfod i ben am 10:53